**DYDD MERCHER, 29 TACHWEDD 2000 LGH 14-00(p5)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 – YSTYRIED CYNIGION NEWYDD

### Diben

1. Cyflwynir y papur hwn er gwybodaeth.

### Crynodeb

2. Nod y papur hwn yw hysbysu'r Pwyllgor am y datblygiadau a gafwyd o ran ymgynghori am Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yng Nghymru ac am y camau sy'n deillio o'r Cytundeb Partneriaeth, "Rhoi Cymru'n Gyntaf". Mae'n cynnwys papur (amgaeëdig) a gynigir yn sail ar gyfer ymgynghori cyhoeddus pellach.

### Cefndir

3. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 Gydsyniad y Frenhines ar 28 Gorffennaf eleni. Bydd ei darpariaethau yn dod i rym yng Nghymru flwyddyn ar ôl y dyddiad hwnnw oni bai fod y Cynulliad yn dewis eu gweithredu cyn hynny.
4. Adeg ei gyhoeddi y mis diwethaf, cyflwynodd y Cytundeb Partneriaeth, "Rhoi Cymru'n Gyntaf", nifer o gynigion newydd sy'n effeithio ar weithredu'r Ddeddf. Y mwyaf arwyddocaol o blith y rhain oedd y penderfyniad i gyflwyno Mesur Llywodraeth Leol gan y Cynulliad a fyddai'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gabinetau awdurdodau lleol gyfarfod yn agored o dan delerau'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Hawl i Wybodaeth); yn rhoi cyfle i gynghorau ffurfio pwyllgorau ardal sydd â phwerau a chyllidebau dirprwyedig; ac yn cynnig iddynt bedwerydd dewis, sef mabwysiadu strwythur pwyllgor wedi'i foderneiddio sydd â gwell pwerau archwilio yn lle'r system Gabinet.

### Ystyried

5. Cafodd canllawiau drafft ar Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghylch trefniadau gweithredol, eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol a phartïon eraill â diddordeb ym mis Medi. Bryd hynny, gofynnwyd i'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy ymateb drwy anfon eu sylwadau ar y Canllawiau erbyn diwedd mis Tachwedd. Er bod nifer o ymatebion wedi dod i law, mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi gohirio anfon unrhyw sylwadau hyd nes y ceir cynigion y Cynulliad mewn perthynas â Threfniadau Eraill Posibl (**amgaeëdig)**. O'r herwydd, cytunwyd y dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori tan ddiwedd mis Chwefror.
6. Eisoes, mae'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy wedi dechrau cael copïau o offerynnau statudol drafft sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno'r eitemau o ddeddfwriaeth eilaidd drwy'r Cynulliad. Bydd y broses hon yn mynd rhagddi am y ddau fis nesaf.

<u>Hawl i Wybodaeth</u>

7. Yn y Canllawiau Drafft ar Ran 2 o'r Ddeddf, cymhwyswyd darpariaethau presennol Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i bwyllgorau gweithredol yr awdurdod ond cynigiwyd bod eithriad pellach, un mwy cyfyngedig ei gwmpas, yn cael ei ychwanegu i alluogi'r cabinet i drafod yn breifat. Effaith y Cytundeb Partneriaeth yw cael gwared ar yr eithriad arfaethedig hwnnw. Caiff y canllawiau drafft eu diwygio i adlewyrchu hyn, a thynnir sylw at hyn yn ystod y broses ymgynghori.

<u>Pwyllgorau Ardal</u>

8. Yn y Cytundeb Partneriaeth, nodwyd y byddai'r Cynulliad yn annog yr awdurdodau i ffurfio Pwyllgorau Ardal sydd â phwerau a chyllidebau dirprwyedig. Mae'r canllawiau drafft yn cydnabod bod y pwyllgorau ardal yn gallu chwarae rôl bwysig o ran rhoi llais i bobl leol yn y broses o wneud penderfyniadau ac maent yn amlinellu gwahanol ffyrdd i'r pwyllgorau ardal gyflawni hyn. Yn ogystal, mae'n egluro y caiff gweithrediaethau ddirprwyo pwerau a chyllidebau i'r cyfryw bwyllgorau, ar yr amod nad yw hyn yn amharu ar effeithiolrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau.
9. Yn ogystal, mae'r papur amgaeëdig am y "pedwerydd dewis" yn ei gwneud yn glir bod y Cynulliad o'r farn bod lle pwysig i bwyllgorau ardal mewn trefniadau anweithredol hefyd.

<u>Trefniadau eraill posibl</u>

10. Mae Adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi'r Cynulliad i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis trefniadau anweithredol, a ddisgrifir yn y Cytundeb Partneriaeth fel "pedwerydd dewis". Er tegwch, bydd y trefniadau hyn ar gael i holl brif gynghorau Cymru.
11. Mae Adran 31 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad nodi ffurf bosibl ar y trefniadau eraill posibl hyn. Er na fyddai hyn yn cynnwys creu gweithrediaeth, rhaid iddo gynnwys creu pwyllgorau archwilio, a chyflwyno gweithdrefnau sy'n debygol o sicrhau ffurf effeithiol,

dryloyw ac atebol ar wneud penderfyniadau. Mae’r papur amgaeëdig yn nodi cynigion ynghylch sut i gyflawni hyn. Bwriedir i'r mater hwn fod yn destun ymgynghori, gan gynnwys trafodaeth yn y Cyngor Partneriaeth, ar ôl trafodaeth yn y Pwyllgor.

Yr Amserlen

12. Mae'n anochel bod cyflwyno’r cynigion newydd hyn wedi effeithio ar yr amserlen y cytunwyd arni eisoes. Mae’r amserlen ddiwygiedig amgaeëdig yn caniatáu tri mis pellach ar gyfer ymgynghori am Ran 2 o’r Ddeddf, gan gynnwys y cynigion ar y pedwerydd dewis. Cynigir y dylai deddfwriaeth y Cynulliad ddod i rym ar 28 Gorffennaf 2001, ar yr un pryd â’r Ddeddf ei hun. Wedyn, bydd yr awdurdodau lleol yn cael cyfnod o chwe mis i ymgynghori â’u hetholaethau lleol a phartïon sydd â diddordeb, gan gyflwyno eu strwythurau newydd arfaethedig wedyn. Mae gan y Cynulliad bwerau i bennu drwy orchymyn erbyn pryd y bydd yn rhaid i’r holl awdurdodau anfon eu cynigion at y Cynulliad. Ar yr amserlen a gynigir, 31 Ionawr 2002 fyddai’r dyddiad hwnnw. Gallai’r targed gwrieddiol ar gyfer sefydlu’r holl strwythurau newydd erbyn Mai 2002 aros yn ddigyfnewid.

**Cydymffurfio**

13. Mae Adran 106 o’r Ddeddf, sydd eisoes wedi'i rhoi mewn grym gan y Cynulliad, yn galluogi’r Cynulliad i gyflwyno’r eitemau o ddeddfwriaeth eilaidd a’r canllawiau sy’n sail i’r ymarfer ymgynghori. Dosberthir canllawiau ar Ran 2 o’r Ddeddf o dan Adran 38.

**Gweithredu**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i dderbyn cynnwys y papur hwn a’i atodiadau. Cynigir bod y Pwyllgor yn trafod y materion hyn ymhellach tua diwedd y cyfnod ymgynghori.

**Person Cyswllt**

Frank Cuthbert
Is-Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI, 29 TACHWEDD 2000**

**"Y PEDWERYDD DEWIS": TREFNIADAU ERAILL POSIBL O DAN ADRAN 32 O DDEDDF**

**LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cyflwyniad**

1. Mae ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’ yn ymrwymo’r Cynulliad i weithredu'r

fframwaith deddfwriaeth sylfaenol newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn ffordd gydlynol a systematig. O fewn rhaglen o ddeddfwriaeth eilaidd a chanllawiau statudol (‘Mesur Llywodraeth Leol gan y Cynulliad’):

(a) bydd yn ofynnol i’r cynghorau gyfarfod yn agored o dan delerau

Deddf Llywodraeth Leol (Hawl i Wybodaeth);

(b) bydd y cynghorau'n cael cyfle i ffurfio pwyllgorau ardal sydd â phwerau a chyllidebau dirprwyedig;

(c) bydd pedwerydd dewis, sef mabwysiadu strwythur pwyllgorau wedi'i foderneiddio sydd â gwell pwerau archwilio yn lle'r system Gabinet, yn cael ei gynnig i’r cynghorau.

2. Mae’r papur hwn yn trafod y ffordd ymlaen gyda golwg ar y pedwerydd dewis, y trefnir iddo fod ar gael drwy reoliadau o dan Adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("trefniadau eraill posibl").

3. O dan y dewis hwn, ni fyddai gan awdurdod "weithrediaeth" yn ôl ystyr y Ddeddf, ond, serch hynny, byddai'n rhaid wrth bwyllgorau archwilio a strwythur pwyllgorau sy’n effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol yn unol ag egwyddorion y Ddeddf. Gan hynny, mae’n bwysig pwysleisio nad yw trefn arall bosibl yn golygu, ac na all trefn o'r fath olygu, bod yr awdurdodau lleol yn cadw'r strwythur pwyllgorau a'r dulliau gweithio presennol (h.y. y *status quo*). Byddai'n rhaid i’r pedwerydd dewis ddangos bod y pwyllgorau'n cael eu

had-drefnu a bod dirprwyo clir ar gyfrifoldebau o safbwynt gwneud penderfyniadau. Byddai angen iddo ategu rôl y cynghorau o ran ceisio’r Gwerth Gorau a rhoi arweiniad i’w cymunedau.

4. Yn ogystal, mae’n bwysig pwysleisio nad yw cyflwyno'r pedwerydd dewis yn golygu nad yw'r gwaith y mae’r rhan fwyaf o’r awdurdodau eisoes wedi’i wneud ar drefniadau gweithredol yn ddilys bellach. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o’r awdurdodau yng Nghymru yn dymuno symud ymlaen i gyflwyno trefniadau gweithredol yn unol â'r cynlluniau a wnaed eisoes. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi cefnogaeth lwyr iddynt wrth iddynt wneud hynny. Er hynny, mae ychydig o awdurdodau yn wynebu problemau o ran sichrau bod eu hamgylchiadau lleol â’r diffiniadau manwl o drefniadau gweithredol a nodir yn y

Ddeddf yn gydnaws â'i gilydd. Yn anad dim, bernir y byddai’r pedwerydd dewis o ddiddordeb iddynt hwythau, er, o ran tegwch, bydd ar gael i’r holl awdurdodau.

## Y Ffordd Ymlaen

5. Mae’r Cynulliad yn bwriadu cynnig un set o drefniadau eraill posibl sy'n syml ac yn hawdd i'w deall. Byddai gofynion gorfodol ynghlwm wrth y trefniadau hyn, ond, byddent hefyd yn cynnwys elfennau dewisol er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol eu haddasu at eu hamgylchiadau lleol.

6. Byddai’r nodweddion allweddol fel a ganlyn:-

(a) Byddai’r Cyngor llawn yn dal i fod yn gyfrifol am gytuno ar y cyfansoddiad, gan gynnwys y cynllun dirprwyo. Byddai angen i’r cynllun dirprwyo ei gwneud yn glir bod y cyngor llawn yn gyfrifol am drafod y fframwaith polisi a'r fframwaith cyllid cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac am gytuno arno. Byddai hyn yn cynnwys cymeradwyo’r gyllideb a mabwysiadu cynlluniau strategol. Byddai angen cyfeirio penderfyniadau a oedd y tu allan i'r fframwaith polisi a chyllid yn ôl i’r cyngor llawn. O fewn y fframwaith hwn, byddai gweddill swyddogaethau’r Cyngor (heblaw am reoli datblygu a swyddogaethau trwyddedu ac unrhyw swyddogaethau lled-gyfreithiol eraill) yn cael eu dirprwyo i un o Bwyllgorau’r Cyngor, y cyfeirir ato yn y papur hwn fel Bwrdd y Cyngor. <u>Ni</u> fyddai’r Bwrdd, nac unrhyw un o bwyllgorau’r Cyngor a gâi eu creu o dan y pedwerydd dewis (heblaw am Bwyllgorau Ardal), yn cael eu heithrio rhag y gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol. Byddai ganddo ddeg aelod neu 20% o’r Cyngor (pa un bynnag sydd fwyaf) ar y mwyaf.

(b) Wrth fabwysiadu ei gyfansoddiad, byddai angen i’r Cyngor fabwysiadu cynllun dirprwyo a fyddai’n caniatáu i’r Bwrdd ddirprwyo penderfyniadau i aelodau unigol neu is-bwyllgorau o’i aelodau, ac i Bwyllgorau Ardal yn ogystal, pe byddai'r Cyngor yn dymuno sefydlu’r cyfryw Bwyllgorau. Byddai'n rhaid i’r cynllun dirprwyo ddarparu bod y penderfyniad ynghylch dirprwyo pwerau penderfynu’r Bwrdd – sef a gaiff y pwerau hynny eu dirprwyo ac i ba raddau - yn benderfyniad i’r Bwrdd ei wneud ar y cyd.

(c) Os dewisir opsiwn y Pwyllgor Ardal, rhaid i gyfansoddiad y Cyngor bennu o leiaf dair ardal, pob un yn cynnwys o leiaf 20% o boblogaeth yr awdurdod, a phennu na fydd holl aelodau’r Cyngor ond yn aelodau o un Pwyllgor Ardal, ac un yn unig. Caiff cadeirydd pob Pwyllgor Ardal fod yn aelod o’r Bwrdd.

(ch) Yn ogystal, bydd cyfansoddiad y Cyngor yn darparu ar gyfer dirprwyo'r swyddogaethau rheoli datblygu, a thrwyddedu, naill ai i Bwyllgor Cynllunio (y bydd ei Gadeirydd yn aelod o’r Bwrdd) neu, fel arall, i Bwyllgorau Ardal. Pa un bynnag, bydd cyfansoddiad y Cyngor yn darparu bod gan Fwrdd y Cyngor ber i orchymyn y bydd unrhyw benderfyniad dirprwyedig o’r fath yn cael ei gyfeirio i gyfarfod o’r Cyngor llawn.

(d) Bydd cyfansoddiad y Cyngor yn creu un Pwyllgor Archwilio y cyfeirir ato yn y papur hwn fel y Prif Bwyllgor Archwilio na chaiff yr un aelod o’r Bwrdd fod yn aelod ohono. Ni fydd cadeirydd y Prif Bwyllgor Archwilio yn aelod o’r un grp plaid â chadeirydd y Bwrdd.

(dd) Bydd cyfansoddiad y Cyngor yn creu rhwng tri a chwech o bwyllgorau archwilio ychwanegol y caiff hyd at dri aelod o’r Bwrdd fod yn aelodau o bob un ohonynt (ac eithrio’r Cadeirydd), y cyfeirir atynt yn y papur hwn fel Pwyllgorau Pwnc. Bydd y cyfansoddiad yn darparu na fydd yr un o’r Pwyllgorau Pwnc yn bwyllgor sy’n gwneud penderfyniadau ond bydd ganddynt rôl bwysig o ran adolygu a gwneud cynigion i’r Bwrdd neu i’r Cyngor ei hun parthed datblygu polisïau’r Cyngor, yn ogystal ag archwilio penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor. Er hynny, ni chaiff y cyfansoddiad gyfyngu ar ryddid y Bwrdd i weithredu drwy fynnu bod materion yn cael eu hystyried gan bwyllgorau pwnc cyn i’r Bwrdd wneud penderfyniadau. [Nid yw’n fwriad i’r cyfyngu ar nifer y pwyllgorau pwnc ffurfiol rwystro awdurdodau rhag sefydlu gweithgorau aelodau neu weithgorau aelodau/swyddogion anffurfiol er mwyn mynd i’r afael â thasgau trawsbynciol a gorffen adolygiadau polisi.]

(e) Byddai holl benderfyniadau'r pwyllgorau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, a’r cyhoedd yn cael gweld yr holl bapurau perthnasol.

(f) Ni fyddai’r un o’r pwyllgorau yn cynnwys mwy na deg aelod na mwy nag 20% o aelodau'r cyngor, pa un bynnag sydd fwyaf (ac eithrio pwyllgorau ardal). Byddai’n ofynnol i unrhyw Bwyllgor Cynllunio fod ag o leiaf wyth o aelodau . Bydd swyddi cadeiryddion y Pwyllgorau yn cael eu rhannu’n deg rhwng grwpiau’r pleidiau.

(ff) Ni fydd dim yng nghyfansoddiad y cyngor yn cyfyngu ar allu pwyllgorau’r Cyngor i ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion y Cyngor.

AMSERLEN DDIWYGIEDIG AR GYFER GWEITHREDU DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

| | |
|---|---|
| 29 Tachwedd | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystyried y pedwerydd dewis arfaethedig a newidiadau eraill a gyflwynir gan y Cytundeb Partneriaeth. |
| 8 Rhagfyr | Dosbarthu atodiad i'r canllawiau drafft, sy'n ymdrin â threfniadau eraill posibl, hawl i wybodaeth |
| 28 Chwefror 2001 | Diwedd y cyfnod ymgynghori. |
| Diwedd Chwefror - Mawrth | Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn trafod canlyniadau'r ymgynghori |
| 12 Gorffennaf (amodol ar Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol / Pwyllgor Busnes) | Dyddiad targed ar gyfer dadl yn y cyfarfod llawn i gwblhau'r broses ddeddfu |
| 28 Gorffennaf | Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol yn dod i rym |
| 1 Awst | Awdurdodau lleol i ddechrau'r broses ymgynghori am y trefniadau newydd |
| 31 Ionawr 2002 | Awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion i'r Cynulliad |
| 31 Mai 2002 | Y trefniadau newydd yn eu lle |